


Graffen yn amddiffyn paentiadau rhag colli eu lliw

Darllenwch yr erthygl lawn yn rsc.li/4ulaMTz

Gall haen dryloyw o graffen, dim ond ychydig o atomau o drwch, atal pigmentau mewn paentiadau rhag colli lliw hyd at 70%. Mae graffen yn amsugno cryn dipyn o olau uwchfioled, yn dibynnu ar nifer yr haenau, ac mae'n rhwystr da iawn yn erbyn ocsigen a lleithder. Mae'n atal colli lliw drwy leihau ymbelydredd niweidiol yn ogystal ag atal trylediad cyfryngau ocsidio.

Mae dellt graffen atomig-denau yn cael eu rhoi ar haen adlynol. Mae dwy roler yn gwasgu'r paentiad a'r ffilm at ei gilydd yn ysgafn, ac yna'n tynnu'r ffilm, gan adael dim ond yr haen graffen.



Delltlen hecsagonol graffen


Graffen yn amddiffyn paentiadau rhag colli eu lliw

Darllenwch yr erthygl lawn yn [rsc.li/4ulaMTz](https://www.rsc.li/4ulaMTz)

Gall haen dryloyw o graffen, dim ond ychydig o atomau o drwch, atal pigmentau mewn paentiadau rhag colli lliw hyd at 70%. Mae graffen yn amsugno cryn dipyn o olau uwchfioled, yn dibynnu ar nifer yr haenau, ac mae'n rhwystr da iawn yn erbyn ocsigen a lleithder. Mae'n atal colli lliw drwy leihau ymbelydredd niweidiol yn ogystal ag atal trylediad cyfryngau ocsidïo.

Mae dellt graffen atomig-denau yn cael eu rhoi ar haen adlynol. Mae dwy roler yn gwasgu'r paentiad a'r ffilm at ei gilydd yn ysgafn, ac yna'n tynnu'r ffilm, gan adael dim ond yr haen graffen.

1. Pa elfen gemegol yw graffen?
2. Disgrifiwch adeiledd graffen.
3. Awgrymwch pam mae'r niwlen graffen yn dryloyw.



Dellden hecsagonol graffen